



DIWRNOD HANES DOLWYDDELAN

Rhwng 11.00yb a 4.00yp

Ydych chi'n dymuno dysgu mwy am hanes eich cartref neu wybod mwy am eich teulu? Yna, dewch draw i'r digwyddiad. Byddwn hefyd yn cynnig llawer o gyngor am ffyrdd eraill o chwilio am hanes.

Dewch draw i frw golwg ar fersiynau papur o Gyfrifiadau Dolwyddelan o 1841 hyd at 1911. Bydd hefyd cyfle ichi frw golwg ar gofrestr yr Ail Ryfel Byd o 1939, ynghyd â'r cofnodion plwyf ar gyfer Sant Gwyddelan gan gynnwys bedyddiadau, claddiadau a nifer cyfyngedig o gofnodion priodas.

Cyfle ichi ganfod a gafodd eich cartref neu eich teulu eu crybwyll yn y papurau newydd! (Dim ond hyd at 1919, felly does yna ddim cofnodion diweddar iawn).

Bydd Paul a Shaun yn fwy na pharod i'ch helpu i ymweld ag Ancestry.com a bwrw golwg ar Bapurau Newydd Cymraeg Ar-lein ac ati ar y diwrnod.

Neu mae croeso ichi alw heibio os ydych chi ond yn dymuno dysgu mwy am hanes ein pentref. Bydd lluniau, paentiadau, llyfrau cyfeiriadau, eitemau hanesyddol ac ati yn ymwneud â'n pentref yno, felly mae croeso ichi ddod â'ch lluniau neu'ch eitemau chi i adrodd yr hanes amdanyn nhw. Fe fuasem ni wrth ein bodd yn eu hychwanegu at ffeiliau hanes Dolwyddelan.

Bydd paned a bisgedi am ddim.

Mae gan Fenter Siabod gadair olwyn ysgafn a phlygadwy i'w fenthyg i unrhyw un sydd ei angen.

Os ydych chi'n lleol neu ar eich gwyliau yn y pentref, mae croeso ichi gysylltu gydag un o'r bobl hynny ar flaen y Newyddlen i wybod mwy.



Taliadau Llogi'r Pafiliwn ac Ystafell Gwyddelan

Unrhyw ymholiadau cysylltwch a . . . Bob Valintine 01690 750 205

Liz Roberts 01690 750 246 Paul Donnelly 07534 120 193

Teleri Jones 07776 192 297 Eunice Cawley 01690 750 268

Brif Ystafell	Busnes	Lleol / Elusen
Cyfradd yr Awr	£25	£10
Hanner Diwrnod	£50	£20
Diwrnod Llawn	£75	£35